**GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYD-WEINIDOGOL AR DDULL YSGOL GYFAN O HYBU IECHYD MEDDWL A LLESIANT**
**4 TACHWEDD 2019**

**Yn bresennol**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Kirsty Williams, AC (MfE) | Y Gweinidog Addysg |
| Steve Davies (SD) | Addysg, Llywodraeth Cymru |
| Lynne Neagle, AC (LN) | Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| Dr Elizabeth Davies (ED) | Uwch Swyddog Meddygol (Meddygon Teulu), Llywodraeth Cymru |
| Dr Dave Williams (DW1) | Cynghorydd Seicoleg Plant Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru |
| Dr Julie Bishop (JB) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Yr Athro Simon Murphy (PSM) | DECIPHer |
| Yr Athro Sally Holland (SH) | Comisiynydd Plant Cymru |
| Paula Vaughan (PV) | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Dr Liz Gregory (LG) | Gwasanaethau Seicoleg |
| Aled Evans (AE) | CCAC |
| Christopher Parry (CP) | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Y Cyng. Huw David (HD) | CLILC |
| Jo-Anne Daniels (JD) | Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny (TB) | Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru |
| Carol Shillabeer (CS) | GIG Cymru |
| Sue Beacock (SB) | Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Llywodraeth Cymru |
| Mark Campion (MC) | Estyn |
| Heather Payne (HP) | Uwch Swyddog Meddygol (Pediatreg), Llywodraeth Cymru |
| Kevin Palmer (KP) | Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru |
| Dr Helen Kirkaldie (HK) | Tîm Ymlyniad a Thrawma Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |

**Dirprwyon**

| | |
|---|---|
| David William (DW2) | Ar ran Steve Davies, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid |
| Alistair Davey (AD) | Ar ran Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| Kathryn Bevan (KB) | Ar ran Debbie Harteveld, GCA i Dde Ddwyrain Cymru |
| Kate Eden (KE) | Ar ran Charles Janczewski, cynrychiolydd Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol |
| Heather Payne (HP) | Ar ran Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Vaughan Gething, AC | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Sue Mably | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andrew Jarett | Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, ymddiheuriadau, cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfod 3 Mehefin 2019** | |
| **1.1** | Croesawodd MfE yr aelodau i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar ddull ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl a llesiant, a gwnaed cyflwyniadau o amgylch y bwrdd. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, na fu modd iddo fod yn bresennol ar y funud olaf.<br><br>Trafodwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol; roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni heblaw am **gam gweithredu 5, dosbarthu'r adroddiad llawn ar Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru**, y cytunodd JB ei ddarparu i'w ddosbarthu gyda chofnodion y cyfarfod hwn. Soniwyd hefyd am y papurau i'w nodi a rannwyd cyn y cyfarfod. | |
| **2** | **Tîm Ymlyniad a Thrawma Gwent – cyflwynwyd gan Dr Helen Kirkaldie** | |
| **2.1** | Croesawodd MfE Dr Helen Kirkaldie, a wnaeth gyflwyniad ar gais Lynne Neagle i ddangos gwaith y tîm yn rhannu arfer sy'n ymateb i ymlyniad a thrawma ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau yng Ngwent, gan gynnwys ysgolion ac eraill megis arolygwyr Estyn.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar yr hyn y mae ei angen ar blant yn y dosbarth i'w helpu i ddysgu, y ffordd y gall trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith ar hyn, a'r hyn y gellir ei wneud i helpu.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth ar y gwersi i'w dysgu o ran creu dull cenedl gyfan, a rhwystrau posibl i'r ffordd hon o weithio. Y consensws oedd mai arian ac amser yw'r ddau rwystr mwyaf – gall fod yn anodd i athrawon ddod o hyd i'r amser i gymryd cam yn ôl, meddwl, myfyrio, ac wedyn gwneud pethau'n wahanol. Nododd CP a PV fod athrawon yn aml yn gwneud gwaith llesiant ar ben eu prif swydd fel athro pwnc, ac felly mae'n allweddol rhyddhau amser a darparu cyllid i arweinwyr bugeiliol fanteisio ar hyfforddiant penodol ar lesiant. Mae llawer o ysgolion uwchradd wrthi'n ceisio lleihau nifer yr athrawon sy'n rhyngweithio â phob plentyn er mwyn gwella'r cydberthnasau a feithrinir. Gall cyflogi mwy o staff ar gyfer cymorth ychwanegol fod yn ddwys o ran adnoddau, ond yn aml mae'n fuddiol. Soniodd HK fod y tîm yng Ngwent yn casglu data wrth iddynt fynd yn eu blaen, a chynigiodd rannu eu canfyddiadau a'r rheini sydd â diddordeb.<br><br>Symudodd y drafodaeth ymlaen at y cysylltiad rhwng y model ymlyniad a phrosiectau mewngymorth CAMHS. Nododd HK y gwnaed cysylltiad rhwng y gwahanol dimau perthnasol yng Ngwent, felly mae cysondeb bras rhyngddynt, ac yn fwy penodol, mae'r dull yn cynnwys niwroamrywiaeth. Soniodd LN y dylai rhaglenni mewngymorth ddefnyddio'r model ymlyniad fel sail ar gyfer gweithgareddau mwy penodol yn ddelfrydol. Gan gysylltu'r model ymlyniad a phrosiectau mewngymorth CAMHS, nododd LG eu bod yn ymchwilio i ddulliau ysgol gyfan, a'r meini prawf sy'n sicrhau bod ymdrechion un ysgol yn fwy effeithiol nag ymdrechion ysgolion eraill. Myfyriodd KB ar y gwaith y maent yn ei wneud i fapio'r cymorth sydd ar gael fesul awdurdod lleol, sy'n sicrhau na chaiff ymdrechion eu dyblygu. Mae'r gwaith mapio hwn hefyd yn galluogi ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol eraill i weld yn glir pwy sy'n darparu pa wasanaeth yn yr ardal, gan eu galluogi i wybod ble i fynd am gymorth â gwahanol faterion. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn olaf, myfyriodd MfE ar y ffaith bod trafodaethau'n canolbwyntio'n aml ar y prif drawma, sef trawma'r plentyn, ond nid ydynt yn ystyried y trawma eilaidd, sef y trawma y gellir ei brofi gan weithwyr proffesiynol sy'n delio â materion y plentyn ac yn eu prosesu. Cadarnhawyd hyn gan HK, a nododd o'i phrofiad hi, fod athrawon ymhlith y gweithwyr proffesiynol sy'n cael y gefnogaeth leiaf, ac am nad oes ganddynt lawer o amser rhydd, yn aml nid oes cyfle iddynt gael cymorth anffurfiol gan gymheiriaid hyd yn oed. I'r gwrthwyneb, fel enghraifft gadarnhaol, soniodd MC am ysgol yn Abertawe sy'n prynu sesiynau cwnsela ar gyfer yr athrawon fel ffordd fuddiol o ddarparu cefnogaeth. | |
| **3** | **Gwersi cynnar gan brosiectau peilot mewngymorth CAMHS – cyflwynwyd gan Julie Bishop** | |
| **3.1** | Croesawodd MfE Dr Julie Bishop, a gyflwynodd bapur yn trafod canfyddiadau cynnar prosiectau peilot mewngymorth CAMHS cyn y gwerthusiad ffurfiol dros dro a gaiff ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.<br><br>Dangosodd y papur y cafodd y prosiectau peilot eu croesawu'n gynnes, a'r brif thema oedd bod y gwaith o feithrin cydberthnasau ar draws sefydliadau wedi bod yn llwyddiant gwirioneddol ac wedi cael ei groesawu gan ysgolion a CAMHS.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd LN am yr ysgolion nad ydynt wedi cymryd rhan, gan holi a oes gwahanol heriau i'w gweld mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Esboniodd JB mai'r rheswm a roddwyd gan rai ysgolion am beidio â chymryd rhan oedd ei bod yn adeg anghyfleus iddynt gan fod yn rhaid iddynt ddelio â materion pwysicach eraill - megis bod wrthi'n rhoi proses gwella arolygu ar waith. O ran y gwahaniaeth rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r ymdrechion wedi canolbwyntio ar ysgolion uwchradd hyd yn hyn, ac y bydd y prosiectau peilot yn ystyried rhoi mwy o gyfleoedd i ysgolion cynradd gymryd rhan mewn ymgyngoriadau yn y dyfodol. Nododd SH y cafodd ymgyngoriadau mewn ysgolion cynradd eu croesawu, lle cawsant y cyfle i gymryd rhan ynddynt, ac y bu'r un pwynt mynediad yn effeithiol.<br><br>Yn fwy bras, nododd MfE fod y gwaith o greu un pwynt mynediad i CAMHS yn werthfawr iawn, a'i bod yn hanfodol datblygu cydberthnasau proffesiynol cryf fel y bydd pob gwasanaeth yn deall y gwasanaethau eraill yn well. Pwysleisiodd LG y gall cydberthnasau cryf helpu i ddatblygu trosolwg o'r system gyfan, a all leihau unrhyw orgyffwrdd rhwng gwasanaethau a nifer yr atgyfeiriadau diangen. Drwy wneud hyn, gall y staff weithio'n fwy effeithiol a helpu i sicrhau y caiff anghenion teuluoedd eu diwallu'n llawn. Ar y llaw arall, nododd MC er bod argaeledd gwasanaeth yn bwysig, fod yn rhaid i ni fonitro'r ansawdd hefyd.<br><br>Trafodwyd y posibilrwydd o gyflwyno model mewngymorth CAMHS ledled Cymru yn y dyfodol. Nododd MfE fod dwy her ynghlwm wrth hyn, y cyntaf o ran y cyllid a'r ail o ran y nifer cyfyngedig o weithwyr proffesiynol sydd ar gael i lenwi'r swyddi. Nododd SB y gall fod angen i'r broses recriwtio fod yn hyblyg ac ehangu cwmpas er mwyn derbyn ymarferwyr eraill megis graddedigion ym maes seicoleg. Fodd bynnag yn y lle cyntaf, nodwyd er bod y grŵp yn falch bod y prosiect peilot yn gwneud yn dda, ei bod yn bwysig sicrhau ein bod wedi dysgu popeth y gallwn ohono cyn cynllunio at y dyfodol. Yn benodol, nododd MfE ei bod yn ymwybodol iawn bod problemau iechyd meddwl yn dechrau yn gynharach na blwyddyn 6, a bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried ffyrdd o ddechrau cynnig cymorth iechyd meddwl yn gynharach mewn plentyndod drwy ehangu darpariaeth cwnsela mewn ysgolion. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Addysg Gychwynnol Athrawon a Datblygiad Proffesiynol parhaus – cyflwynwyd gan Kevin Palmer** | |
| **4.1** | Croesawodd MfE Kevin Palmer, a amlinellodd ei raglen arfaethedig ar gyfer cyflwyno agweddau ar lesiant meddyliol ac emosiynol yn Addysg Gychwynnol Athrawon a Dysgu Proffesiynol.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn cynnwys meysydd newydd penodol o ddysgu proffesiynol, y cynulleidfaoedd ac opsiynau ar gyfer cyflwyno'r datrysiad.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, symudodd y drafodaeth ymlaen at y gwahanol gynulleidfaoedd y gall dysgu proffesiynol fod yn berthnasol iddynt a sut i sicrhau orau fod y gynulleidfa'n cofio negeseuon yr hyfforddiant. Nododd SB y byddai'n awyddus i weld y rhaglen hyfforddiant yn ehangu i gynnwys y staff ehangach, megis nyrsys ysgol, a nododd DWT y gellid cysylltu'r rhaglen hefyd â chymwysterau gwaith ieuenctid. Nododd HK o'i phrofiad hi fod sesiynau dilynol rheolaidd, byr ar ôl yr hyfforddiant yn yr ychydig fisoedd cyntaf yn hanfodol er mwyn helpu athrawon i gadw eu hyder a pharhau i roi'r hyn y maent wedi ei ddysgu ar waith.<br><br>Nododd AE fod mater ehangach yn ymwneud ag arweinyddiaeth a sicrhau ein bod yn creu amgylchedd sy'n parchu llesiant. Rhaid i hyn ddigwydd ar yr uwch-lefel arwain mewn ysgolion ac awdurdodau lleol – os nad yw'n rhan annatod o'r arweinyddiaeth, ni fydd yn parhau. Yn ddelfrydol felly, mae angen i'r gwaith hwn gwmpasu cyrff llywodraethu, Awdurdodau Addysg Lleol, Consortia Rhanbarthol ac ESTYN. Soniodd SD fod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r ffordd rydym yn gwerthuso ysgolion, gan fod y mesurau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ymddygiad ysgolion a sut y caiff amser ac ymdrech eu neilltuo. Mae PV yn croesawu'r newidiadau hyn, gan y gall y staff deimlo eu bod yn cael eu llethu gan y mentrau llesiant sy'n dod atynt, a nododd ei bod yn hollbwysig bod cyrff yn ymwybodol o'r hyn y gofynnir iddynt ei wneud, a'u bod yn gweithio er mwyn symleiddio'r ceisiadau a wneir lle y bo'n bosibl. Ymatebodd MfE gan ddweud ein bod wrthi'n ystyried lleihau baich gwaith athrawon ac adolygu a oes angen i ni ofyn am y gwahanol gynlluniau gweithredu strategol a data rydym yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd.<br><br>Nododd DW fod llawer o'r gwaith hwn yr un mor berthnasol i weithwyr ieuenctid ac y byddai'n falch o weld y gwasanaeth yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r gweithgarwch hwn. Dywedodd HP y byddai'n cyfarfod ag ef ar wahân er mwyn ystyried ffyrdd o gynnwys gwaith ieuenctid yn y gwaith hwn. | **Cam Gweithredu** |
| **5** | **Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| **5.1** | Nododd MfE ddyddiad y cyfarfod nesaf a chynigiodd y bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar adolygu'r fframwaith dull ysgol gyfan. Mewn perthynas â hyn, dosbarthwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Fframwaith gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Caiff y fersiwn hon ei mireinio ymhellach ar ôl cael sylwadau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, er y gwahoddir aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd i gyflwyno sylwadau erbyn 30 Tachwedd i Mentalhealth.Schools@gov.wales.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 27 Ionawr 2020<br>Lleoliad: Parc Cathays 2 | **Cam Gweithredu** |